

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 174(4) a (5)(l) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2021 Rhif (Cy.)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**PLANT A PHOBL IFANC,
CYMRU**

**Rheoliadau'r Strategaeth Tlodi
Plant (Cyd-bwyllgorau Corfforedig)
(Cymru) 2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ("y Mesur") yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfraniad awdurdodau Cymreig at ddileu tlodi plant yng Nghymru.

Mae cyd-bwyllgorau corfforedig a sefydlir drwy reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Ddeddf") yn awdurdodau Cymreig at ddiben y Mesur.

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r cyfnod amser y mae strategaeth tlodi plant a lunnir gan gyd-bwyllgor corfforedig mewn perthynas ag ef, pa bryd y dylai'r strategaeth gael ei hadnewyddu, pa bryd a sut y dylai'r strategaeth gael ei chyhoeddi a sut y gellir ei harchwilio.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau'r Strategaeth Tlodi Plant (Cymru) 2011, drwy ddatgymhwyso'r Rheoliadau hynny i gyd-bwyllgorau corfforedig.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gysylltiedig â rheoliadau a sefydlodd gyd-bwyllgorau corfforedig penodol o dan Ran 5 o'r Ddeddf.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig a gorchmynion a rheoliadau cysylltiedig. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 174(4) a (5)(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2021 Rhif (Cy.)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**PLANT A PHOBL IFANC,
CYMRU**

**Rheoliadau'r Strategaeth Tlodi
Plant (Cyd-bwyllgorau Corfforedig)
(Cymru) 2021**

Gwnaed

Yn dod i rym

3 Rhagfyr 2021

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 5(3) o Fesur Plant a Theuluoedd 2010(1) ac adrannau 84(2)(a) a 174(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(2) (“Deddf 2021”).

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad yn unol ag adran 174(4) a (5)(1) o Ddeddf 2021(3).

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Strategaeth Tlodi Plant (Cyd-bwyllgorau Corfforedig) (Cymru) 2021.

(1) 2010 mecc 1.

(2) 2021 dsc 1.

(3) Gweler hefyd adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) ar gyfer darpariaeth ynglŷn â'r weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 3 Rhagfyr 2021.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

- (a) ystyr “strategaeth tloidi plant” yw strategaeth sy'n nodi pob un o'r pethau a bennir yn adran 2(1) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010;
- (b) ystyr “cyd-bwyllgor corfforedig” yw cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir drwy reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;
- (c) ystyr “awdurdod lleol” yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;
- (d) ystyr “cyfnod y strategaeth” yw'r cyfnod y mae strategaeth tloidi plant mewn perthynas ag ef.

Cyfnod y strategaeth ar gyfer y strategaeth tloidi plant gyntaf a'r strategaethau tloidi plant sy'n dilyn

3.—(1) Cyfnod y strategaeth ar gyfer y strategaeth tloidi plant gyntaf a lunnir gan gyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir ar 1 Ionawr 2022 neu cyn hynny yw'r cyfnod sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2023 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2026.

(2) Cyfnod y strategaeth ar gyfer y strategaeth tloidi plant gyntaf a lunnir gan gyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir ar ôl 1 Ionawr 2022 yw'r cyfnod—

- (a) sy'n dechrau ar y dyddiad y cyhoeddir y strategaeth (gweler rheoliad 4(2)), a
- (b) sy'n dod i ben ar 31 Mawrth yn y drydedd flwyddyn galendr yn dilyn y flwyddyn galendr y cyhoeddir y strategaeth ynddi.

(3) Cyfnod y strategaeth ar gyfer strategaethau tloidi plant dilynol yw'r cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau ar 1 Ebrill yn union ar ôl diwedd cyfnod y strategaeth ar gyfer y strategaeth flaenorol.

Amseriad cyhoeddi'r strategaeth tloidi plant gyntaf a'r strategaethau tloidi plant sy'n dilyn

4.—(1) Rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir ar 1 Ionawr 2022 neu cyn hynny gyhoeddi ei strategaeth tloidi plant gyntaf ar 1 Ebrill 2023 neu cyn hynny.

(2) Rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir ar ôl 1 Ionawr 2022 gyhoeddi ei strategaeth tloidi plant gyntaf heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl y dyddiad y sefydlir y gyd-bwyllgor corfforedig.

(3) Rhaid i strategaethau dilynol gael eu cyhoeddi ar y dyddiad y mae cyfnod y strategaeth ar gyfer y strategaeth yn dechrau neu cyn hynny.

Dull cyhoeddi strategaeth tlodi plant

5.—(1) Rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig gyhoeddi strategaeth tlodi plant drwy ei rhoi ar ei wefan ar y dyddiad y cyhoeddir y strategaeth a rhaid iddo gynnal y strategaeth ar y wefan honno drwy gydol cyfnod y strategaeth.

(2) Rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig wneud trefniadau i anfon copi o unrhyw wybodaeth a gyhoeddir o dan baragraff (1) pan ofynnir amdano i unrhyw aelod o'r cyhoedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y gofynnir am gopi.

Adolygiad o'r strategaeth tlodi plant

6.—(1) Rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig adolygu pob un o'i strategaethau tlodi plant cyn diwedd cyfnod y strategaeth ar gyfer y strategaeth o dan sylw.

(2) Rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig lunio adroddiad ar y cyfryw adolygiad a rhaid iddo gyhoeddi'r adroddiad adolygu drwy ei roi ar ei wefan.

(3) Rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig wneud trefniadau i anfon copi o unrhyw wybodaeth a gyhoeddir o dan baragraff (2) pan ofynnir amdano i unrhyw aelod o'r cyhoedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y gofynnir am gopi.

Gofyniad ymgynghori

7. Rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig, cyn cyhoeddi strategaeth tlodi plant, ymgynghori â Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol a phersonau eraill sydd, yn nhyb y chyd-bwyllgor corfforedig, yn briodol.

Diwygio Rheoliadau'r Strategaeth Tlodi Plant (Cymru) 2011

8. Yn rheoliad 2 o Reoliadau'r Strategaeth Tlodi Plant (Cymru) 2011(1), yn lle "nac awdurdod lleol" rhodder " , awdurdod lleol na chyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir drwy reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021".

Enw

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weiniogion Cymru
Dyddiad

(1) O.S. 2011/675 (Cy. 98).